


Penrhyn Santes Ann

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 4.4 milltir (7.0 km) 2 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Dale 315/316,
*Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Arfordir garw, ymylon clogwyni, gweddol wastad,
caeau a da byw


CHWILIWCH AM: Amddiffynfa arfordirol Blocws y Gorllewin
• goleudy • adar y môr

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y Llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau

ALLWEDD

- • • • • Llwybr Cylch
- — — — — Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- — — — — Llwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileadau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws



Penrhyn Santes Ann

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr 30 munud

Pellter: 4.4 milltir (7.0 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Dale 315/316, *Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SM805029

Clogwyni dramatig, treftadaeth gyfoethog a golygfeydd gwych

Chwiliwch am: Amddiffynfa arfordirol Blocws y Gorllewin, goleudy, adar y môr.

Mae yna glogwyni serth o Hen Dywodfaen Coch ar hyd y penrhyn, gyda llwyfandir bron yn wastad ar gopa'r clogwyni - canlyniad erydiad a dorrwyd gan y tonnau pan yr oedd y môr 200 troedfedd yn uwch rhyw 400 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Penrhyn Santes Ann ar benrhyn Dale yw'r man mwyaf heulog yng Nghymru ac mae yma rhai o'r ffigurau glawiad isaf yn yr ardal, ac felly, yn gyffredinol, mae'r siawns o weld golygfeydd gwych ar draws y dŵr i Sgogwm yn lled dda.

Yn Cobbler's Head, mae yna ffoldiadau gwych o glogwyni lliwgar dramatig. Sgogwm oedd Arsyllfa Adar cyntaf Prydain. Fe'i sefydlwyd yn 1933 ac, fel ei chymdogion, Sgomer a Middleholm, mae nawr n cael cydnabyddiaeth ryngwladol am ei bywyd gwyllt. Mae Sgogwm yn lloches i'r pâl, y gwylanod coesddu, heligogod, mulfrain gwyn a phalod Manaw. Mae'r frân goesgoch, yr aderyn drycin, yr hebog tramor, y bwncath a'r tinwyn hefyd yn ymweld â'r ynys a'r ardal o amgylch Penrhyn Santes Ann. Mae llamhidyddion a dolffiniaid yn nodwedd reolaidd yn y dŵr oddi ar y pentir.

O Flocws y Gorllewin, mae yna olygfeydd gwych ar draws Dyfrffordd Aberdaugleddau at benrhyn Angle. Roedd Blocws y Gorllewin yn gaer Duduraidd gynnar ac mae yna olion safleoedd gwn mwy modern.

Cymeriad: Arfordir garw, ymylon clogwyni, gweddol wastad, caeau a da byw.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

